

DATBLYGU SGILIAU LLEFERYDD, IAITH A CHYFATHREBU: BETH FYDD YN GWNEUD Y GWAHANIAETH?

COLEG BRENHINOL
THERAPYDDION
IAITH A LLEFERYDD

Mae pob rhiant ac ymarferydd yn deall pwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu ac yn gwybod sut i greu amgylcheddau cyfoethog mewn iaith.



Dosbarthiadau Cyn Geni

Fe ddysgodd fy rhieni o ddsbarthiadau cyn geni pa mor bwysig ydi hi i siarad, canu a darllen i fi.



Ymwelydd Iechyd

Mae fy Ymwelydd Iechyd yn wybodus iawn ac yn deall fod iaith yn ffactor warchodol. Mae'n cadarnhau negeseuon datblygu iaith allweddol.



Plentyn Iach Cymru

Yn fy adolygiad Plentyn Iach Cymru mae fy Ngweithiwr Iechyd yn siarad gyda fy rhieni/gofalwyr am ddatblygiad iaith ac yn gwirio os ydw i angen cymorth.



Dechrau'n Deg

Os ydw i'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg, Dwi'n derbyn cefnogaeth gan ymarferyddion mewn gofal plant a magu plant ac ymwelwyr iechyd sydd wedi cael llawer o hyfforddiant a mynediad i Therapydd Lleferydd ac iaith i'w helpu nhw i fy helpu i.



Sesiynau Rhyngweithio Oedolyn Plant

Mae fy Ymwelydd Iechyd yn gwirio sut ydw i'n dod ymlaen ac yn awgrymu fod fy rhieni/gofalwyr yn mynd i Sesiynau Rhyngweithio Oedolion Plant y Therapydd Lleferydd ac iaith i gael cyngor ar y ffordd orau i helpu fy siarad.



Gofal Plant

Mae gen i le gofal plant lle y mae staff wedi derbyn llawer o hyfforddiant mewn cefnogi plant gydag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.



Yn yr Ysgol

Mae fy athrawon yn monitro fy natblygiad iaith ac yn rhoi llawer o gyfleoedd imi ddysgu geiriau newydd yn y dosbarth fel bod modd imi ddysgu a gwneud ffrindiau newydd.